**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL**

**PWNC:** **PWLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL - DYDD LLUN, 24 IONAWR 2022 DYDD LLUN, 24 IONAWR 2022**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL: M. MOORE (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: P. Baldwin
M. Day
P. Edwards
S. Healy
W. Hodgins
J. Holt
J. C. Morgan
L. Parsons
L. Winnett
G. A. Davies
J. Hill
J. P. Morgan

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer y Cynghorwyr C. Meredith, M. Cook, B. Summers, M. Cross a T. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Sharrem. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>GORSAF DROSGLWYDDO GWASTRAFF A CHANOLFAN AILGYLCHU GWASTRAFF CARTREFI</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth hon ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei thrin gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14, Rhan 1, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar y cyd gan y Rheolwr Gyfarwyddwr, Prif Swyddog Adnoddau a Phennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol.<br><br>Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm Cyfleoedd Adfywio yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad i aelodau ar y gwaith a gwblhawyd ers yr adroddiad diwethaf a ystyriwyd ym mis Rhagfyr 2019 ac yn gofyn am gymeradwyaeth ar y ffordd a ffafrir ymlaen.<br><br>Siaradodd y Swyddog am yr adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>Dilynodd trafodaeth pan fynegodd Aelodau bryder am wahanol elfennau yn yr adroddiad, yn arbennig y diffyg manylion yng nghyswllt cynllun busnes y Cyngor, a theimlent y dylid gohirio'r adroddiad nes ceir cynllun busnes cadarn.<br><br>Esboniodd y Swyddog fod y manylion yn yr adroddiad yn ymwneud â threfniadau cynllunio pontio wrth symud ymlaen. Byddai'r pryderon a godwyd gan Aelodau yn ffurfio rhan o unrhyw waith yn y dyfodol i ddatblygu cynigion pellach.<br><br>Cafwyd trafodaeth bellach pan eglurodd y Prif Swyddog Adnoddau | |

bwyntiau a wnaed gan Aelodau am gostau. Dywedodd y Swyddog na chafodd arbedion posibl cyfleoedd sy'n datblygu eu cynnwys yng nghynlluniau busnes y Cyngor, fodd bynnag rhagwelid y byddai'r pwysau cost yn gostwng dros amser gyda phosibilrwydd cynhyrchu incwm.

Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr ei bod yn bwysig sicrhau fod unrhyw gynllun busnes yn gadarn ac yn dynodi lle'r oedd angen arbenigedd ychwanegol wrth ddatblygu cyfleoedd posibl. Soniodd hefyd am oblygiadau gohirio'r adroddiad.

Dilynodd trafodaeth pellach pan eglurodd Swyddogion y pwyntiau a gododd Aelodau.

Dywedodd Aelod arall fod hwn yn adroddiad cynhwysfawr sy'n dynodi cyfleoedd ar gyfer y Cyngor wrth symud ymlaen a chefnogodd Opsiwn 3.

Roedd nifer o Aelodau hefyd yn cefnogi Opsiwn 3.

Yn dilyn sylwadau pellach gan Aelodau, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddir ar yr achos busnes ar gyfer pob cyfle datblygu yn y dyfodol i'r Pwyllgor ei ystyried.

Cynigiodd Aelod yr opsiwn arall dilynol:

'Bod Cynllun Busnes y Cyngor gyda chostau llawn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ei ystyried, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn er penderfyniad.'

Eiliwyd y cynnig.

Wedyn cynhaliwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar yr opsiwn arall a gynigiwyd.

**O blaid –** Cynghorwyr P. Baldwin, P. Edwards, John C. Morgan, L. Winnett.

**Yn erbyn** - Cynghorwyr M. Day, S. Healy, W. Hodgins, J. Hill, L. Parsons, J. Holt, G.A. Davies, John P. Morgan, M. Moore

Felly ni chariwyd y cynnig arall.

| | | |
|---|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad sy’n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol/busnes personau heblaw’r Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 3, h.y, dod â gwasanaethau yn ôl dan gylch gorchwyl y Cyngor. | |